***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 322

# Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

## RHAN B

## APELAU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG A HAWLIADAU ANABLEDD

### Paratoi achos cyn y gwrandawiad

***Gwrandawiadau a phenderfyniadau***

**Methiant i fod yn bresennol mewn gwrandawiad**

**54.**—(1) Os yw parti'n peidio â bod yn bresennol neu gael ei gynrychioli mewn gwrandawiad yr hysbyswyd y parti hwnnw ohono, caiff y panel tribiwnlys—

(a) oni fodlonir y panel tribiwnlys fod rheswm digonol dros y cyfryw absenoldeb, glywed a phenderfynu'r apêl neu'r hawliad yn absenoldeb y parti hwnnw; neu

(b) gohirio'r gwrandawiad cyn ei gychwyn neu ei ohirio ar ôl ei gychwyn fel y bo'n briodol.

(2) Cyn penderfynu apêl neu hawliad yn absenoldeb parti, rhaid i'r panel tribiwnlys ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y parti hwnnw wrth ymateb i'r hysbysiad o wrandawiad, ac at ddibenion y rheoliad hwn mae'r cais apêl neu'r cais hawlio a datganiadau achos y partïon i'w trin fel pe baent yn sylwadau ysgrifenedig.